# Cofnodion Cyfarfod 1/2/2024

**Presennol:** Y Maer Eifion Roberts, Y Cyng Tony Parry, Dilys Evans, Rhys Evans, Jacqueline Allen, Fiona Hopkins, Eric Williams, Clare Mackintosh, Eluned Jones a Huw Antur (*Clerc*).

**Hefyd yn bresennol:** Y Cyng. Dilwyn Morgan (Aelod lleol Cyngor Gwynedd).

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. John C Williams, Sion McGuiness a Moira Mai.

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer, Eifion Roberts. Cyfeiriodd at y ffaith fod y Cyng John C Williams wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, ond ei fod yn gwella erbyn hyn ac yn bwriadu ail afael yng ngwaith y Cyngor Tref yn fuan. Nodwyd hefyd ei fod wedi cyflwyno'r Wobr Ffenestr Siop Nadolig i Ganolfan Deulu'r Bala, sef dewis y siop fuddugol Petalau Eleri.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Fe gadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod 4/1/24.
4. **Materion y Clerc / Materion yn codi:**
    i. Cynllun Creu Lle: Nodwyd fod ymgynghorwyr wedi ymateb i'r briff ac wedi cyflwyno tendr am y gwaith o baratoi'r Cynllun Creu Lle. Trefnwyd i'r cyng Eifion Roberts, Rhys Evans, Eluned Jones, Dilwyn Morgan a'r Clerc i gydweithio gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i sgorio'r tendrau a dewis y cwmni priodol.
    ii. Cynllun Celf Canol Trefi: Gwnaed trefniadau i'r Cyng Eifion Roberts, Tony Parry, Eluned Jones, Jacqueline Allen a'r Clerc i gyfarfod swyddog Cyngor Gwynedd ddydd Iau Chwefror 8fed am 2.30pm i drafod natur a lleoliad y gwaith celf.
    iii. Baner y Domen – adroddwyd fod y faner wedi ei phrynu ac yn barod i'w gosod erbyn Dydd Gŵyl Dewi.
    iv. Mainc ger cofeb Tom Ellis – adroddwyd fod coed addas wedi eu rhoi i'r arlunydd Mari Elain i'w paentio ac yna eu gosod ar y fainc er mwyn ei hatgyweirio.
    v. Cadwyn y Maer – adroddwyd nad oes lle i linciau newydd ar Gadwyn y Maer i roi enwau meiri'r dref arni. Cafwyd trafodaeth ar y mater, ac fe benderfynwyd i beidio prynu cadwyn newydd, ond yn hytrach i ofyn caniatâd i osod llun o'r maer yn flynyddol yn Ystafell Tom Ellis yng Nghanolfan Henblas, hyn yn golygu un llun eleni, ac yna un llun A4 ychwanegol yn flynyddol. Nodwyd y byddai'r gwariant yn dod o Gronfa'r Maer, ac y gellid gofyn i Hannah Gwenllian am gymorth gyda unrhyw waith dylunio.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)

5. **Cyngor Gwynedd:** Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Dilwyn Morgan, pryd y nodwyd fod y problemau gyda'r gwasanaethau bysus cyhoeddus yn parhau, ond bod problem y baw cŵn wedi ei datrys. Fe'i atgoffwyd am yr angen i ddelio â mater y rheiliau ger banc y Nat West.

6. **Y Bala – Yma o Hyd:** Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf o'r grŵp trefnu ar Chwefror 8fed.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau:

   i. Is-bwyllgor y Nadolig: Fe dderbyniwyd gwybodaeth ddefnyddiol iawn gan Gyngor Tref Dolgellau ar eu trefniant ar gyfer Goleuadau Nadolig. Cytunwyd i holi ymhellach am gostau blynyddol eu trefniant, a'i ganran o braesept blynyddol y cyngor.
   ii. Is-bwyllgor gofalu am a chynnal asedau: Nodwyd fod trefniadau mewn llaw i ail osod baner ar Domen y Bala ac i atgyweirio mainc ger cofeb Tom Ellis.
   iii. Is-bwyllgor tref gyfeillgar: Nodwyd fod trefniadau ar y gweill i symud meinciau'r dref i leoliadau mwy addas a diogel.
   iv. Is-bwyllgor bioamrywiaeth: Nodwyd fod dathliadau'r Bala – Yma o Hyd yn gyfle da i blannu blodau a phlanhigion mewn gwahanol ardaloedd o'r dref.

**Cynrychiolwyr ar fudiadau:**

i) Diwrnod Atal Trosedd: Cafwyd adroddiad gan y Cyng Clare Mackintosh o'r diwrnod gyda'r Heddlu pryd y trafodwyd y defnydd o Smartwater i atal a datrys troseddau dwyn. Cytunwyd fod angen annog pobl i brynu a defnyddio Smartwater, ac fe gytunodd Clare i baratoi taflen ar gyfer hyn, a diolchwyd iddi am ei gwaith.

8. **Materion Cynllunio**: NP5/53/AD604: Caniatâd Hysbysebion i osod panel gwybodaeth am Daith Mari Jones. Tir ger Banc National Westminster, Stryd Fawr, Y Bala, LL23 7NE. Cytunwyd i wrthwynebu'r cais oherwydd diffyg gofod o flaen y Nat West, ac effeithiau posibl hyn ar ddiogelwch cerddwyr. Cytunwyd hefyd i dynnu sylw at y ffaith mai safle'r bwrdd gwybodaeth presennol o flaen Banc y Barclays sydd fwyaf addas, yn ymarferol ac yn hanesyddol.

NP5/53/T262: Newid defnydd o siop fanwerthu presennol (Dosbarth Defnydd A1) i siop de / siop anrhegion bach arfaethedig (Dosbarth Defnydd A3 & A1) 98 Stryd Fawr, Y Bala. LL23 7AD. Cytunwyd i gefnogi'r cais.

*9.* **Materion Cyllid:**

   **i.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf, a nodwyd fod £20,071.26 yn y cyfri cyfredol, £16,428.31yn y cyfri cadw a £863.14 yng Nghronfa'r Maer. Nodwyd fod £5,000 wedi ei glustnodi tuag at gostau dathliadau Y Bala – Yma o Hyd.

ii. Cymeradwywyd taliadau am lanhau Llochesi Bws, anfoneb Archwilio Cymru, Clwb Pêl-droed y Bala, Cyngor Gwynedd (Goleuadau Nadolig) a chyflog y Clerc. Cytunwyd hefyd i dalu costau swyddfa'r clerc am y flwyddyn, y swm i'w rannu rhwng y cyn glerc a'r clerc presennol.
iii. Cytunwyd i drafod ceisiadau ariannol o'r newydd yng nghyfarfod mis Mawrth o'r cyngor.
iv. Derbyniwyd copi o Gynllun Ffioedd Archwilio 2024-2025.

**10. Gohebiaeth:**

i. Triathlon - derbyniwyd gwybodaeth am drefniadau Triathlon 2024, ac fe gytunwyd i wahodd cynrychiolydd o gwmni Camu i'r Copa i gyfarfod mis Ebrill o'r cyngor.
ii. Taith Menter Iaith: Derbyniwyd gwahoddiad i gyfarfod gyda Menter Iaith Gwynedd yn y Bala ar Chwefror 21ain, a chytunodd y Cyng Eifion Roberts, Tony Parry, Rhys Evans, Fiona Hopkins ac Eluned Jones fynychu'r cyfarfod ar ran y cyngor.
iii. Tim Tacluso Ardal Ni: Derbyniwyd gwybodaeth y bydd y tim yn y Bala ar Chwefror 12-16, a nodwyd y bydd hyn yn gyfle i newid lleoliad rhai o feinciau'r dref.

11. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Derbyniwyd gwybodaeth gan y Cyng Clare Mackintosh am bryder am ddiogelwch yr A494 rhwng y Bala a Llanfor. Cytunwyd i gysylltu gyda'r Aelod Senedd Mabon ap Gwynfor i gefnogi ei ymgyrch dros wella diogelwch y rhan yma o'r ffordd.

12. Daeth y cyfarfod i ben am 8.15pm a bydd y cyfarfod nesaf Nos Iau Mawrth 7fed 2024.



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / .....................................(CLERC)